# Johnnie Roberts, y Bala

Roedd Johnnie Roberts yn fachgen 17 mlwydd oed fu'n gweithio fel gard ac yn ffreutur y gwersyll pan garcharwyd y Gwyddelod yno.

...bara du a thatws fyddai'r rhan fwyaf o'u bwyd nhw...Oedd ymprydio...oedd 'hunger strikes' ofnadwy yno. Mi fydden nhw'n mynd ymlaen am sbel o bythefnos weithiau ...wnaen nhw ddim bwyta a bydden nhw'n lluchio'r bwyd yn ôl. Bydden nhw'n cwyno'n arw iawn eu bod yn cael gormod o benwaig coch wedi eu rhewi...

...roedden nhw eisiau symud i'r camp yn y gogledd achos huts oedd rheini... roedd llefydd iddyn nhw ymolchi a llefydd tai bach iddyn nhw...roedden nhw'n cwyno bod y camp yn wlyb ac yn oer. Roedd hen gamp y de yn gynhesach achos roedd na boiler house mawr a chorn simne mawr...am y camp arall doedd yna ddim gwres o gwbl, roedd rhaid ichi wneud gwres eich hunan, bydden nhw'n gorwedd yn eu dillad yn y nos oedd yn llawn llau byw...wedyn byddai hen fois y Gwyddelod yn mynd lawr i'r cae i blanio beth i wneud...pan oedd pethau'n mynd yn ddrwg iawn, aeth yr hanes i glustiau'r bobl yn y House of Commons... ar ôl i'r MPs o Ddublin fod yno penderfynwyd bod rhaid iddyn nhw weithio a chynigiwyd gwaith iddyn nhw yn Chwarel yr Arenig, a byddai'r trên yn mynd â nhw i fyny ac i nôl...

Siaradodd Johnnie Roberts am ei brofiadau yng Ngwersyll Fron-goch mewn cyfweliad a recordiwyd rhwng Hydref a Rhagfyr 1987. Mae'r rhain yn ddyfyniadau sydd wedi eu haddasu o'r cyfweliad hwnnw.
(Archifdy Gwynedd-Archifdy Meirionnydd)

# Johnnie Roberts, y Bala

Roedd Johnnie Roberts yn fachgen 17 mlwydd oed fu’n gweithio fel gard ac yn ffreutur y gwersyll pan garcharwyd y Gwyddelod yno.

...Y Cymro bach oedd y Gwyddelod yn fy ngalw i ac roeddwn i'n fath o negeswr i Michael Collins... Dywedodd Mr.Edwards - os oedd y Gwyddelod eisiau cynnal Ysgol Nos [i ddysgu Cymraeg] buasai'n well iddyn nhw gael *Spurrell's Dictionary* - a mi wnaeth Mr. Llewelyn Edwards fenthyg ei eiriadur a chardie'r alffabet iddyn nhw...cawson nhw ddefnyddio'r gegin fwyd am awr a hanner i gynnal yr ysgol a bydden nhw'n defnyddio top y popty fel 'blackboard'.

... mi fydden nhw'n gofyn 'Have you got cherry wood pipes?' a minnau'n dweud 'yes' ac yn edrych o dan y cownter... a wedyn byddai un yn dweud wrtho chi 'They want you at the other end of the counter' a bydden i'n mynd i ben arall y cownter ac wedyn oedd na ladrata yn mynd ymlaen wedyn... dywedodd y Commandant wrth y manager bod well peidio cwyno wrth y fyddin gan fod pethau mor ddrwg, esgus bach oedd eisiau arnyn nhw i ddechrau malu'r llefydd, malu'r gwelyau, a gwneud eu budreddi yn y gwelyau... Oedd hi'n ddifrifol yno, llosgi'r gwelyau yn y boiler houses a phethau felly... dywedodd un o'r officers mai gwell fyddai cael y penaethiaid... y pen dyn o'r cwbl lot oedd Michael Collins... dywedodd y byddai'n mynd drwy eu pocedi ac os fydden nhw'n cael eu hamau byddai'n cymryd eu henwau a bydden nhw'n cael eu gwahardd o'r cantîn am gyfnod...

Siaradodd Johnnie Roberts am ei brofiadau yng Ngwersyll Fron-goch mewn cyfweliad a recordiwyd rhwng Hydref a Rhagfyr 1987. Mae’r rhain yn ddyfyniadau sydd wedi eu haddasu o'r cyfweliad hwnnw.
(Archifdy Gwynedd-Archifdy Meirionnydd)